NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Quizartinib ar gyfer triniaeth trwytho, atgyfnerthu a chynnal lewcemia myeloid acíwt FLT3-ITD-positif newydd ei ddiagnosio

23 Hydref 2024

Mae quizartinib (Vanflyta) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer lewcemia myeloid acíwt FLT3 ITD positif sydd newydd gael ei ddiagnosio mewn oedolion, o'i ddefnyddio gyda'r canlynol:

- cemotherapi cytarabine ac anthrasyclin safonol fel triniaeth drwytho, wedyn
- gyda chemotherapi cytarabine safonol fel triniaeth atgyfnerthu, yna
- ar ei ben ei hun fel triniaeth gynnal.

Triniaeth drwytho yw cam gyntaf y driniaeth; cemotherapi dwys yw hwn a'i nod yw dileu'r celloedd lewcemia yn y gwaed a mêr esgyrn. Nod triniaeth atgynferthu yw atal y canser rhag dychwelyd drwy ddileu unrhyw gelloedd lewcemia sy'n weddill. Nod triniaeth gynnal yw parhau i atal unrhyw gelloedd lewcemia rhag dychwelyd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Gweler ein tudalen we ar wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

NICE National Institute for Health and Care Excellence

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall tudalen we y GIG ar lewcemia myeloid acíwt fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- GOFAL Lewcemia, 08088 010 444
- Blood Cancer UK, 0808 2080 888
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-9477-9